



Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

15 Tachwedd 2023

Annwyl Delyth,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad '*Cysylltiadau Cymru-Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd*' yn dilyn eu hymchwiliad i'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.

Mae Cymru ac Iwerddon yn gymdogion agos ac maent wedi meithrin perthynas gref a chadarnhaol ar sail hen hen gysylltiadau a chyd-ddealltwriaeth ddiwylliannol ddofn. Mae ein perthynas fodern a byrlymus wedi tyfu o gysylltiadau hanesyddol, treftadaeth a diwylliant cyffredin, a pherthynas agos rhwng pobl, busnesau a chwaraeon a pherthynas ddiwylliannol agos.

Ers lansio'r Cyd-ddatganiad a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd, rydym wedi cefnogi amrywiaeth o bartneriaethau, mentrau a chyfnewidiadau polisi ar draws y chwe maes cydweithredu, yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau o dan ofal llywodraeth i feithrin cydweithrediad a pherthynas waith agosach rhwng Cymru ac Iwerddon.

Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor ennyn trafod yn Fforwm Cymru Iwerddon a gynhaliwyd fis diwethaf yng Ngogledd Cymru. Roedd yn gyfle pwysig i barhau â'r berthynas hon a'r partneriaethau hyn. Prif destunau sylw'r Fforwm oedd ynni adnewyddadwy, sgiliau, astudio ac iaith a'r celfyddydau.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod. Mae'n bwysig cofio mai cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon yw'r Cyd-ddatganiad. Rydym yn gyfrifol ar y cyd am ei gyflawni ac felly, bydd angen ymgynghori â Llywodraeth Iwerddon ar rai o'r argymhellion yn yr adroddiad, a chael ei chytundeb iddynt.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. *Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r cyfleoedd posibl a gynigir gan gyfranogiad o'r newydd yn Horizon mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor.*

Ymateb: Derbyn

Fel y dywedwyd gennym yn ein [datganid i'r wasg](#) ar 7 Medi, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod y DU am ailymuno â Horizon Europe.

Mae Horizon Europe yn cynnig cyfleoedd i ymchwilyr rhyngwladol blaengar o bob sector, mewn amrywiaeth eang o themâu. Gall sefydliadau yng Nghymru fanteisio ar y cyllid drwy wneud cais pan gyhoeddir "galwadau" penodol. Mae rhai o'r galwadau hyn, er enghraifft Cyngor Ymchwil Ewrop neu Gyngor Arloesi Ewrop, yn agored i unrhyw thema ymchwil. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gofyn bod y consortia sy'n ymgeisio'n cyflawni effeithiau polisi neu economaidd penodol y bydd y Comisiwn Ewropeaidd a'i grwpiau ac asiantaethau cysylltiedig wedi'u pennu.

Yn rhaglen Horizon 2020, mae prosiectau sydd â Chymru ac Iwerddon yn rhan ohonynt wedi sicrhau ar gyfartaledd rhyw €3m i bob gwlad bob blwyddyn. Roedd y prosiectau hyn yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau Brexit na'r rhelyw, sy'n golygu bod mwy o gyfran o gyfranogiad Cymru tuag at ddiwedd Horizon 2020 nag ar y dechrau yn brosiectau cydweithredu ag Iwerddon.

Ni fydd y galwadau a'r consortia a ddaw o reidrwydd yn flaenoriaeth o ran amcanion polisiâu Iwerddon a Chymru. Mae'n bwysig bod sefydliadau yng Nghymru yn ail-gydio yn eu cysylltiadau ag Iwerddon a'r UE, am flynyddoedd os oes angen, er mwyn sicrhau eu bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn i fanteisio ar gyfleoedd am gyllid.

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r holl gymorth, fel Cymru Ystwyth, y gall Cymru, y DU ac Iwerddon ei gynnig er mwyn cynyddu eu siawns o lwyddo yn y rhaglen hynod gystadleuol hon. Dylid nodi fodd bynnag mai dim ond un llwybr ar gyfer cydweithredu yw Horizon Europe a gellir elwa ar synergeddau gyda chronfeydd eraill, gan gynnwys mentrau dwyochrog.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2. *Dylai Llywodraeth Cymru aildechrau cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cyflawniadau a wneir yn sgil cyfranogiad yn Horizon yng Nghymru.*

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiadau yn rheolaidd ar raglenni Horizon, gyda'r un olaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae Cymru wedi'i wneud o dan Horizon Europe hyd yn hyn, er gwaethaf yr ansicrwydd yn sgil yr oedi o ran ymgysylltu yn chwarter cyntaf 2024. Ein hymrwymiad yw llunio adroddiadau rheolaidd, yn hytrach na rhai blynyddol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu amlygrwydd y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar ei gwefan drwy ddwyn ynghyd ei strategaethau fel y maent yn berthnasol i Iwerddon mewn un lle, i gynnwys Fframwaith Môr Iwerddon, y Strategaeth Ryngwladol, y Cyd-ddatganiad, a gwybodaeth am rôl swyddfa Dulyn, erbyn diwedd Chwefror 2024. Dylid hefyd roi esboniadau clir o'r ffordd y mae pob llinyn yn berthnasol i'r lleill, a sut mae hyn yn cael ei gydlynu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd swyddogion yn llunio tudalen bwrpasol fydd yn ymdrin â'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon; fodd bynnag, rhaid wrth gytundeb Llywodraeth Iwerddon ar gyfer hyn. Mae gwybodaeth am Iwerddon, gan gynnwys rôl Swyddfa Dulyn, ar gael yn rhwydd drwy ein tudalennau gwe [Cysylltiadau a datblygiad rhyngwladol](#) a [Cymru Ystwyth](#). Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys presennol ei thudalennau ar y we sy'n ymwneud â'i pherthynas ag Iwerddon i sicrhau bod y cynnwys hwnnw'n glir. Os bydd Llywodraeth Iwerddon yn cytuno, gellir creu dolen ychwanegol ar gyfer y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru egluro rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yng Nghymru a'i swyddfa yn Nulyn, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu strategaethau Cymru-Iwerddon, pennu amcanion clir a dangosyddion perfformiad allweddol.

Ymateb: Gweler isod

Yr un yw rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yng Nghymru ag yn ein swyddfa yn Nulyn. Mae swyddfa Dulyn yn gweithredu fel cangen dramor o Lywodraeth Cymru i gynnal gweithgareddau yn Iwerddon o dan feysydd unigol, megis Addysg, yr Economi a Newid yn yr Hinsawdd. Mae cylch gwaith Swyddfa Dulyn, a'n holl swyddfeydd tramor, wedi'i nodi ar wefan Llywodraeth Cymru gyda'r nodau yn seiliedig ar y tair uchelgais yn y Strategaeth Ryngwladol. Mae gan Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn gylch gwaith clir ac mae'r berthynas â Llywodraeth Iwerddon, yn dilyn llofnodi'r Cyd-ddatganiad, wedi cryfhau hyn.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys unigolion perthnasol sy'n arbenigo mewn cymdeithas sifil (gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg) yn y gwaith y bydd yn ei wneud mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol ac esbonio sut y caiff hyn ei wneud yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'i strategaethau Cymru-Iwerddon ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

Yr ymateb i argymhellion 5 a 6: Derbyn

Mae Swyddfa Dulyn Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chynhaliodd ddigwyddiad ar gyfer 'llysgenhadon' cenedlaethau'r dyfodol ym mis Hydref 2023. Bu ymwneud hefyd â gweithgarwch Comisiynydd y Gymraeg ar ddiogelu a hyrwyddo'r iaith yn y dyfodol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill o Gymru yn lwerddon gan gynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Amgueddfa Cymru ac Urdd Gobaith Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, cynhelir digwyddiad ar gyfer y gymdeithas sifil i ddod â rhanddeiliaid perthnasol ynghyd i:

- Esbonio amcanion y Cyd-ddatganiad.
- Clywed gan rhanddeiliaid ynghylch sut i ddod â gweithgarwch ynghyd.
- Rhannu syniadau ynghylch Cyd-ddatganiad ar gyfer y dyfodol.

Mae rhwydwaith Môr Iwerddon, rhwydwaith sy'n rhan o Gymru Ystwyth, yn e-bostio gwybodaeth yn rheolaidd am ddigwyddiadau, cyfleoedd ariannu a phynciau perthnasol eraill i'n rhanddeiliaid. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys pobl weithredol o'r gymdeithas sifil, er enghraifft, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WVCA).

Rydym hefyd wedi cynnal dau Symposiwm ffurfiol a gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid ar Fframwaith Môr Iwerddon, lle cafodd rhanddeiliaid ddylanwadu ar ein gwaith a blaenoriaethau'r Fframwaith. Mae gweithdy arall i rhanddeiliaid ar y gweill.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7. *Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad blynyddol ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n nodi'r holl weithgarwch ar draws ei strategaethau gwahanol ac unrhyw weithgarwch ychwanegol nad yw'n rhan o strategaeth. Dylai hyn ddangos sut mae gweithgarwch rhwng Cymru ac Iwerddon ar draws ei strategaethau gwahanol yn cael ei gydgysylltu. Dylai'r adroddiad gynnwys dangosyddion perfformiad, canlyniadau tystiolaeth a chyrhaeddiad, a dylai werthuso cynnydd.*

Ymateb: Gweler isod

Mae'r cyfyngiadau difrifol presennol ar adnoddau yn Llywodraeth Cymru yn golygu na allwn gytuno i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ychwanegol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y rhwydwaith cyfan gan gynnwys Iwerddon. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys astudiaethau achos manwl ar weithgareddau allweddol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a gwaith ar ein cysylltiadau blaenoriaeth, er enghraifft, astudiaethau achos adroddiad blynyddol 2020-21 ar Fforwm Gweinidogol cyntaf Iwerddon Cymru a 'Cymru Mewn...' sydd wedi ymddangos mewn adroddiadau dilynol. Roedd erthygl yn adroddiad 2022-23 hefyd am ymweliad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg â Dulyn. Mae'n dangos ehangder y gwaith a wneir yn rhyngwladol gan roi cyd-destun defnyddiol ar gyfer gweithgarwch gyda gwledydd penodol fel Iwerddon. Rydym yn bwriadu parhau â hyn.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 8 Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru gynhyrchu adroddiadau gweithgaredd blynyddol, sy'n monitro cynnydd, yn crynhoi ei gyfarfodydd ac yn nodi'r camau nesaf. Dylai'r adroddiadau helpu i nodi'n well feysydd ar gyfer cymorth wedi'i dargedu yn y dyfodol a dylid eu cwblhau ar ôl cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Hydref 2023.

Argymhelliad 9. Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru wella tryloywder drwy gyhoeddi agendâu cyfarfodydd, cofnodion a manylion presenoldeb o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

Yr ymateb i argymhellion 8 a 9: Gweler isod

Mae Llywodraethau Cymru ac Iwerddon eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am weithgarwch y Fforwm. Rydym yn cynhyrchu communiqué ar y cyd â Llywodraeth Iwerddon sy'n disgrifio'r brif bwyntiau i'w trafod cyn y Fforwm Gweinidogol blynyddol. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi [Datganiad Ysgrifenedig](#) ar ôl cynnal y Fforwm. Mae Llywodraeth Iwerddon yn cyhoeddi hefyd ei datganiadau ei hun drwy ei Hadran Materion Tramor. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld digon o fanteision yn sgil defnyddio'r adnoddau fyddai eu hangen i gynhyrchu adroddiad arall ar eu gweithgaredd blynyddol. At hynny, byddai'n rhaid cytuno ar adroddiad o'r math hwn, a'i gynhyrchu, ar y cyd â Llywodraeth Iwerddon ac ni ddylai fod yn benderfyniad unochrog gan Lywodraeth Cymru.

Yn yr un modd, byddai angen i Lywodraeth Iwerddon gytuno i gyhoeddi agendâu, cofnodion a chamau gweithredu. O ystyried nad yw hyn yn arfer safonol i gytundebau dwyochrog eraill Llywodraeth Iwerddon gyda gwledydd partner, mae'n annhebygol y byddai eithriad yn cael ei wneud yn yr achos hwn.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 10. Dylai'r Prif Weinidog roi rhagor o fanylion am sut yr hoffai Llywodraeth Cymru weld y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei wella, a dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU ystyried y cynigion hyn.

Ymateb: Gweler isod

Mae Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch cymryd rhan yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) a chredwn ei fod wedi dod yn fwy amlochrog a pherthnasol dros amser. Mae gofyn i rannau o'r argymhelliad hwn wrth eu datblygu barchu cyd-destun y BIC fel sefydliad sy'n rhan o Gytundeb Gwener y Groglith. Mae Llywodraeth Cymru yn un o wyth aelod, bob un yn cymryd rhan gyfartal. Nid oes unrhyw seiliau cyfansoddiadol y byddem yn cyflwyno cynigion arnynt i Lywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 11. Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ymagwedd debyg at berthnasoedd rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth, dylai gynnwys canfyddiadau'r adroddiad hwn o'r cychwyn cyntaf.

Ymateb: Derbyn

Mae pob perthynas ryngwladol yn wahanol ac yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Felly, efallai nad oes ffordd unffurf ar gyfer gwneud hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau Adroddiad y Pwyllgor wrth ddatblygu, neu fabwysiadu, Cyd-Ddatganiadau ar gyfer datblygu cysylltiadau rhyngwladol eraill sydd â blaenoriaeth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12. *Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu a'i defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl 2025. Dylai'r gwersi hyn gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru a'u hailgymhwyso i'w chydberthnasau rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth yn y dyfodol.*

Ymateb: Derbyn

Bydd tystiolaeth y Pwyllgor yn cael ei hystyried yn llawn wrth lywio penderfyniadau a gweithgareddau y tu hwnt i 2025. Fel gyda phob elfen allweddol o'r cydweithredu, byddwn yn ystyried hyn gyda Llywodraeth Iwerddon.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 13. *Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y Pwyllgor hwn, y Senedd, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â chydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025.*

Ymateb: Gweler isod

Mae ein hymgysylltiad rhyngwladol yn seiliedig ar gydweithrediad, ac rydym yn cydweithio â phartneriaid. Mewn rhai meysydd o ymgysylltu rhyngwladol, megis diplomyddiaeth chwaraeon, mae ffordd Tîm Cymru o weithio wedi ennyn canmoliaeth. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ac eraill mewn gweithgaredd rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod Cyd-Ddatganiad Cymru Iwerddon yn gytundeb rhwng llywodraethau ac, o'r herwydd, dyma ffocws ein hymgysylltiad sylfaenol. Byddwn yn ystyried ystyriaethau'r Pwyllgor o hyn wrth inni weithio gyda Llywodraeth Iwerddon.

O ran cyfranogaeth y Senedd, byddai'n amhriodol yn gyfansoddiadol i Lywodraeth Cymru gynghori'r Pwyllgor, neu'r Senedd, ar sut y byddent yn rhan o'r cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl 2025. Rôl y llywodraeth yw sicrhau bod yna gyfleoedd i'r Senedd a'i Phwyllgorau ymgysylltu; mater i'r Senedd yw p'un a yw'r Senedd a'i Phwyllgorau am fanteisio ar y rheini, neu am greu eu cyfleoedd eu hunain ar gyfer ymgysylltu.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 14. *Gan ei bod yn ymddangos nad oes modd gwahanu polisi cysylltiadau rhyngwladol oddi wrth bolisi masnach o ran y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y cânt eu cydgysylltu ar draws gwaith y llywodraeth.*

Ymateb: Derbyn

Mae cysylltiadau rhyngwladol, mewnfuddsoddi, allforio a pholisi masnach i gyd o dan ofal un gyfarwyddiaeth yn Llywodraeth Cymru – y Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach (IR&T). Mae hyn yn sicrhau bod ein holl weithgarwch rhyngwladol yn cydlynu. Yn ogystal, mae swyddogion IR&T yn cefnogi timau eraill Llywodraeth Cymru i gynnal gweithgarwch rhyngwladol, er enghraifft yr adran Addysg neu gynghori ar geisiadau am gyllid Cymru Ystwyth.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad 15. *Dylai Comisiwn y Senedd roi ei farn i'r Pwyllgor ar y posibilrwydd y bydd cynnydd yn nifer y pwyllgorau sydd gan BIPA, yn ogystal â'i ystyriaethau ar gynyddu nifer cynrychiolwyr y Senedd a llenwi'r sedd wag.*

Ymateb: Amherthnasol

Nid yw'n briodol i Lywodraeth Cymru wneud sylw ar Argymhelliad 15.

Goblygiadau Ariannol:

Ddim yn gymwys.

Argymhelliad 16. *Dylai llywodraethau Cymru ac Iwerddon ymrwymo cyllid i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n gymesur â'u huchelgais y tu hwnt i 2025 yn ddi-oed, i roi sicrwydd i randdeiliaid ac i sicrhau y bydd cyn lleied o gostau cyfleoedd â phosibl.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae cyllid Llywodraeth Iwerddon yn fater i Lywodraeth Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth Iwerddon yn trafod mecanwaith ar gyfer cefnogi cyfnod newydd o gydweithredu a rhoddir gwybod i randdeiliaid am unrhyw ddatblygiadau.

Mae'r berthynas ag Iwerddon yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac adlewyrchir hyn ym mlaenoriaethau ein rhaglen Cymru Ystwyth. Mae ein Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio â gwledydd eraill ac ar draws ffiniau ac adlewyrchir hyn yn ein trafodaethau yn y dyfodol â Llywodraeth y DU ar gam nesaf disodli cronfeydd yr UE.

Goblygiadau Ariannol

I'w gadarnhau. Mae £0.15m eisoes wedi'i ymrwmo i brosiectau cydweithredu Môr Iwerddon drwy Gymru Ysty flwyddyn ariannol hon. Byddai ymrwymadau ym mlwyddyn ariannol 2024-25 yn gofyn am ailflaenoriaethu cyllidebau eraill.

Argymhelliad 17. *Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am Cymru Ystwyth, gan gynnwys ei ffocws ar ddatblygu cysylltiadau newydd yn hytrach na chadw'r rhai presennol a chynnwys rhanddeiliaid.*

Ymateb: Derbyn

Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybodaeth am Gymru Ystwyth ac mae gwybodaeth ar ein gwefan ([Cymru Ystwyth | LLYW.CYMRU](#)). Bydd y wybodaeth hon yn esblygu wrth i ni symud ymlaen trwy dirwedd cyfnewidiol ein cysylltiadau ar ôl Brexit. Mae rhanddeiliaid wedi bod yn gysylltiedig â datblygu syniadau Cymru Ystwyth, o gyd-gynhyrchu ein Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol i grŵp rhanddeiliaid presennol Cymru Ystwyth. Mae Fframwaith Môr Iwerddon, sy'n rhan o Gymru Ystwyth, wedi cael ei drafod mewn dau Symposiwm ffurfiol a gweithdy i rhanddeiliaid, gan helpu i lunio ei ffordd o weithio a'i flaenoriaethau. Mae rhwydwaith Môr Iwerddon yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd am ddigwyddiadau, cyfleoedd ariannu a phynciau perthnasol eraill i helpu i hwyluso cydweithredu a chynnal rhwydweithiau presennol.

Mae'n anghywir dweud bod ffocws Cymru Ystwyth neu Fframwaith Môr Iwerddon ar gysylltiadau newydd; mae'n cefnogi cyfnod newydd o gydweithredu sy'n cynnwys adeiladu ar y cydweithrediad presennol a chydweithrediad newydd. Adlewyrchir hyn yn y prosiectau a gefnogir gan Gymru Ystwyth o dan alwad ariannu ddiweddaraf Môr Iwerddon, sy'n cynnwys cyfnodau newydd i rai o'r rhwydweithiau a gefnogir o dan raglen Iwerddon Cymru a meysydd cydweithredu newydd o fewn y sectorau addysg preifat ac uwch.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.